Cyffredinol

- Ni ddylai'r erthygl fod mwy na 8,000 o eiriau mewn hyd a dylid ei chyflwyno yn unol â'r canllawiau a nodwyd isod.
- Dylid cyflwynod **DAU** gopi printiedig o'r erthygl ynghyd â chopi trwy gyfrwng atodiad ebost neu ar ddisg wedi ei fformadu (gweler y canllawiau).
- Dylid cynnwys crynodeb o ryw 100-150 o eiriau, 5/6 gair allweddol ar gyfer y wefan a nodyn bywgraffiadol byr.
- Dylid cynnwys unrhyw ddelweddau y dymunir eu cynnwys gyda'r erthygl ar ffurf safon argraffu ynghyd â phrawf o gytundeb hawlfraint. Dim ond pum delwedd fesul erthygl a gynhwysir. Dylai'r delweddau gefnogi'r dadleuon a wnaed o fewn yr erthygl.
- Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad, cyfeiriad ebost a rhif ffôn. Mae'r golygyddion yn rhagweld mai trwy gyfrwng ebost y bydd y gohebu gan amlaf.

Gwasg Prifysgol Cymru
Canllawiau ar gyflwyno testunau i'w cyhoeddi

Diwyg yr allbrint

Ar bapur y bydd y mwyafrif o lyfrau Gwasg Prifysgol Cymru yn cael eu golygu, a hynny er mwyn i'r awduron weld yn glir yr hyn sydd wedi ei newid; mae hyn yn golygu bod cywiriadau a marciau ar gyfer y cysodwyr yn cael eu hysgrifennu rhwng y llinellau ac yn yr ymylon. Bydd y broses olygu yn haws os byddwch yn argraffu'ch testun yn unol â'r cyfarwyddiadau canlynol.

- Defnyddiwch deip clir, a hwnnw'n 12pt o leiaf o ran ei faint.
- Peidiwch ag unioni'r testun ar hyd yr ochr dde.
- Argraffwch y testun cyfan, gan gynnwys y nodiadau a'r cyfeiriadau, am yn ail linell ar un ochr o bapur A4, gan ganiatáu digon o le ar hyd y pedair ymyl.
- Rhifwch y tudalennau yn ddi-fwlch drwy'r testun cyfan.
- Ar dudalen cyntaf eich allbrint, marciwch y dyddiad y cafodd y testun ei argraffu. Dylai'r dyddiad hwn gyd-fynd â'r dyddiad ar label y ddisg (gweler isod).

Paratoi'ch testun ar ddisg

Mae Gwasg Prifysgol Cymru yn disgwyl i awduron gyflwyno fersiwn terfynol eu testun ar ddisg cyfrifiadur ynghyd ag allbrint.

Mathau o ddisg

- Gall y Wasg dderbyn disgiau sydd wedi eu prosesu ar PC neu Mac.
- Word neu WordPerfect yw'r feddalwedd sydd orau gennym. Os nad ydych yn defnyddio'r naill neu'r llall o'r ddau becyn hyn, cysylltwch ag un o olygyddion y Wasg yn gynnar, er mwyn sicrhau y gall eich disg gael ei ddarllen.
- Mae disgiau hyblyg, cryno-ddisgiau neu ddisgiau *zip* i gyd yn dderbyniol fel cyfrwng ar gyfer trosglwyddo'ch ffeiliau i'r Wasg.

Paratoi testun ar ddisgiau – yr hanfodion

Cyffredinol

- Os ydych yn ailddefnyddio disg, dilëwch bopeth oddi arno a'i hailfformadu.
- Arbedwch bob pennod fel ffeil newydd, gan roi enwau call i'r ffeiliau – er enghraifft Pen1, Pen2, Diweddglo. Nid oes angen arbed pob ffeil ar ddisg ar wahân, ond ceisiwch sicrhau na fydd yr un ffeil unigol yn fwy na 100 kb.
- Wrth gyflwyno'r gwaith, gwnewch yn siwr: (a) mai fersiwn diweddaraf eich testun sydd wedi ei arbed; (b) fod yr allbrint yr un fath yn union â'r testun ar y disg; (c) mai dim ond y deunydd a geir yn yr allbrint sydd ar y disg.
- Cadwch o leiaf un copi o'ch testun cyflawn wrth gefn (ar ddisg hyblyg yn ogystal ag ar eich disg caled os oes modd).
- Peidiwch â rhoi cyfrinair i unrhyw un o'ch ffeiliau, na'u harbed fel ffeil 'darllen yn unig'.
- Rhowch label ar y disg ac arni eich enw chi, teitl y llyfr a'r dyddiad, i gyd-fynd â'r dyddiad ar yr allbrint, a nodwch y feddalwedd a ddefnyddiwyd hefyd (Word, WordPerfect etc.).

Fformadu

Gorau po leiaf o fformadu a wnewch ar eich ffeiliau, gan fod cynllun cymhleth ar y ffeil yn gorfod cael ei ailwampio wrth gysodi. Efallai nad yw'r hyn sy'n edrych yn dda ar bapur yn fuddiol iawn ar gyfer y gwaith cysodi.

- Dylai'r testun gael ei unioni ar yr ymyl chwith yn unig, ac nid ar y dde nac i ganol y tudalen. Dylai penawdau ac is-benawdau gael eu hunioni ar y chwith hefyd, gan adael llinell wag uchod ac isod. Peidiwch â defnyddio gormod o is-benawdau a holwch un o olygyddion y Wasg os ydych yn bwriadu defnyddio mwy na thair lefel o is-benawdau.
- Ar ddiwedd pob paragraff pwyswch y fysell ddychwelyd ddwywaith i ddangos bod y paragraff nesaf yn dechrau; nid oes angen defnyddio'r tab hefyd i ddangos bod paragraff newydd yn dechrau.
- Dim ond ar gyfer dyfyniadau sy'n cael eu 'hamlygu' y dylai indentiadau gael eu defnyddio, hynny yw dyfyniadau o farddoniaeth neu ryddiaith nad ydynt yn rhedeg fel rhan o'r prif destun. Defnyddiwch un tab yn unig i ddechrau amlygu dyfyniad rhyddiaith. Wrth ddyfynnu o farddoniaeth, defnyddiwch un tab ar gyfer pob llinell o farddoniaeth os bwriedir i'r dyfyniad gael ei hunioni ar y chwith, ond os nad oes bwriad felly, holwch un o olygyddion y Wasg.
- Peidiwch â defnyddio'r rhaglen gysylltnodi awtomatig na chysylltnodi geiriau yn unigol ar ddiwedd llinell. Dim ond mewn geiriau sy'n gorfod cael cysylltnod ble bynnag y bônt y dylech ddefnyddio cysylltnod.
- Mae teipyddion yn cael eu hyfforddi i osod dau fwlch ar ôl atalnod llawn. *Un* yn unig a geir mewn llyfr.
- Rhaid gwahaniaethu rhwng cysylltnod a gwahannod: mae cysylltnod (-) yn un llinellig fer a ddefnyddir i gysylltu geiriau. Gwahannod 'en' (–) a ddylai gael ei ddefnyddio, heb fylchau o boptu iddo, ar gyfer amrediadau rhifau, e.e. dyddiadau a rhifau tudalennau, a chyda bwlch o boptu iddo ar gyfer saib sangiadol mewn brawddeg. Os na allwch greu gwahannod 'en' (sef Alt 0150 gyda'r Number Lock ymlaen mewn Word), defnyddiwch ddau gysylltnod (--) i ddangos y gwahaniaeth rhyngddo a chysylltnod.

Nodiadau
Wrth baratoi'ch nodiadau ar ddisg, defnyddiwch y cyfleuster ôl-nodion. Os na all eich system greu naill ai ôl-nodion neu droednodiadau, defnyddiwch rifau mewn uwchysgrifen. Dylai pob rhif i ddynodi nodyn gael ei osod y tu allan i'r atalnodau, fel hyn.[2] Cofiwch argraffu'r nodiadau ar bob yn ail linell hefyd.

Tablau
Gellir cynnwys tablau yn eu safle yn y ffeiliau testun os ydynt yn ddigon syml, ond dylai tablau mawr neu dablau cymhleth gael eu harbed mewn ffeil ar wahân, gan nodi ar ymyl y testun y fan lle cânt eu lleoli yn y pen draw. *Ni* ddylent gael eu gosod mewn blwch ac *ni* ddylid tywyllu'r cefndir ychwaith.

Darluniau

Cyffredinol
Wrth benderfynu ar ddeunyddiau darluniadol i'w cynnwys yn y testun, dylai awduron ystyried pa mor ddarllenadwy fydd pob darlun, yn enwedig unrhyw labeli, ar ôl iddo gael ei leihau i ffitio'r tudalen wrth argraffu.

- Gofynnir i awduron sicrhau bod yr holl ddeunyddiau darluniadol angenrheidiol a'r ffeiliau *yn cael eu darparu ar yr un pryd ag y cyflwynir disg y testun terfynol a'r deipysgrif i'w cyhoeddi*.
- Gwnewch yn siwr fod y sillafu ar ddeunyddiau darluniadol yn cyd-fynd â'r sillafu yn y testun.
- Dylid cyfeirio yn y testun at y deunyddiau darluniadol ar y ffurf *Tabl 1* etc. ar gyfer tablau a *Ffigur 1* etc. ar gyfer darluniau eraill gan gynnwys mapiau, ac nid 'yn y diagram canlynol' gan nad oes sicrwydd y bydd rhaniad y tudalennau yn caniatáu i'r deunyddiau gael eu lleoli mor fanwl â hyn.
- Fel arfer mae'n fuddiol peidio â chynnwys teitlau mapiau/diagramau yng nghorff y map neu'r diagram; dylid rhoi'r teitlau ar wahân, er mwyn iddynt gael eu cysodi fel capsiynau i gyd-fynd ag arddull y testun.
- Gofynnir i awduron sicrhau caniatâd i atgynhyrchu unrhyw ddeunyddiau darluniadol sydd eisoes yn destun hawlfraint (gweler yr adran ar Hawlfraint isod).

Deunydd darluniadol ar ffeil gyfrifiadur

- Yn ddelfrydol, dylai diagramau a siartiau gael eu cyflwyno ar ffurf Excel neu Tiff, ond gall llawer math arall o feddalwedd fod yn dderbyniol; holwch un o olygyddion y Wasg. Peidiwch â chynnig delweddau ar ffurf meddalwedd cyflwyniadau, e.e. ffeiliau PowerPoint.
- Rhaid i bob ffigur, siart, diagram a map gael ei arbed ar ffurf *greyscale*, gan nad oes modd atgynhyrchu ffigur lliw-llawn yn fanwl gywir mewn du.
- Dylai pob llinluniad ar ffeil gael ei arbed ar 800 picsel i'r fodfedd.
- Bydd pob diagram, map a siart fel arfer yn ymddangos o fewn y tudalen terfynol a argreffir, ond adeg y deipysgrif dylent gael eu darparu mewn ffeiliau ar wahân i'r testun (ac ar dudalennau ar wahân yn y deipysgrif). Y rheswm am hyn yw y gall ffeiliau diagramau sydd wedi'u hymgorffori mewn

ffeil testun fod yn anodd i'r cysodwr eu cyrchu neu eu haddasu. Dylid defnyddio nodyn yn yr ymyl i ddangos lleoliad pob diagram yn y testun.
- Byddai'n ddefnyddiol pe gellid rhestru'r holl ffeiliau sy'n cynnwys deunydd darluniadol, gan roi enw'r ffeil ac yna natur y darlun drwy gyfrwng capsiwn byr (e.e. *Ffig. 1: Nifer y newidiaduron Cymraeg a lansiwyd , fesul degawd, 1800–1909 (graff)* neu *Ffig. 3: Newidiadau ym mhoblogaeth Cymru 1931–51 (llinluniad)*).
- Gellir derbyn ffotograffau du a gwyn ar ffurf ffeil, cyhyd ag y byddant wedi eu sganio i'w hatgynhyrchu ar eu gwir faint a'u bod wedi eu harbed fel ffeiliau Tiff ar 300 picsel i'r fodfedd. Os ydych yn cyflwyno delweddau lliw i'w hatgynhyrchu mewn du a gwyn, arbedwch y rhain fel Tiff mewn *greyscale*.

Deunydd darluniadol heblaw ar ffeil gyfrifiadur
- Dylai ffotograffau a diagramau nad ydynt ar ffeil gyfrifiadur gael eu cyflwyno ar ffurf sy'n barod ar gyfer y camera (hynny yw fel y copi gorau posibl yn barod i gael ei atgynhyrchu).
- Peidiwch â chynnig llungopïau na drafftiau bras yn lle delweddau gwreiddiol, gan *nad* yw llungopïau fel arfer yn ddigon da i'w hatgynhyrchu (gellir caniatáu eithriad ar gyfer rhai llinluniadau clir pryd y gall llungopi fod yn addas weithiau).
- Ar gyfer darluniau hanner tôn, rhowch brint du a gwyn sgleiniog os oes modd. Gall print lliw fod yn dderbyniol os nad oes un du a gwyn ar gael.
- Peidiwch ag ysgrifennu ar gefn y print na defnyddio clipiau papur; gellir amharu'n ddifrifol ar ansawdd y gwaith atgynhyrchu.

Arddull testunau Cymraeg

Hwyrach y bydd y llyfrau canlynol o gymorth i awduron fel ffynonellau ar gyfer arddull neu sillafu:
O ran orgraff, dilynwch *Orgraff yr Iaith Gymraeg* (Gwasg Prifysgol Cymru); gweler *Hart's Rules for Compositors* (Gwasg Prifysgol Rhydychen) am ganllawiau ar gyfer materion megis italeiddio, priflythrennau a defnyddio ieithoedd eraill; gall *The Oxford Dictionary for Writers and Editors* (Gwasg Prifysgol Rhydychen) fod yn ddefnyddiol ar gyfer byrfoddau, llawer o enwau priod a chysylltnodi yn Saesneg. Dylid ysgrifennu enwau lleoedd yng Nghymru yn ôl argymhellion Elwyn Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd*; dylai enwau daearyddol eraill gydymffurfio ag *Yr Atlas Cymraeg Newydd*, gol. Gareth Jones (Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru).

Dyfyniadau: o fewn llif y testun ei hun, dylid gosod dyfyniadau o fewn dyfynodau sengl (a dyfynodau dwbl ar gyfer dyfyniadau o fewn dyfyniadau). Dylai dyfyniadau o fwy na 45 gair gael eu hamlygu (h.y. eu hindentio ar y tudalen print) heb ddyfynodau a chan adael un llinell wag uchod ac isod. Wrth ddyfynnu barddoniaeth, dylid amlygu'r testun fel rheol os dyfynnir mwy na dwy linell. Mae'n bwysig sicrhau bod dyfyniadau o ffynonellau eraill yn gywir cyn cyflwyno'r deipysgrif. At ei gilydd, dylai awduron ddilyn testun y gwreiddiol o ran priflythrennau, print italig a sillafu, er y gall yr atalnodi gael ei addasu i gyd-fynd â'r cyd-destun newydd. Os yw'r awdur am dynnu sylw at wall, dylid

gosod [*sic*] ar ôl y geiriau perthnasol. Dylai rhyngosodiadau'r awdur gael eu gosod mewn bachau petryal.

Italig: Teipiwch unrhyw eiriau sydd i ymddangos mewn print italig mewn italig (neu eu tanlinellu os na allwch deipio mewn italig). Dylai geiriau unigol neu ymadroddion byr mewn unrhyw iaith heblaw y Gymraeg gael eu gosod mewn print italig, ond dylai dyfyniadau hirach mewn iaith arall gael eu gosod mewn teip rhufeinig o fewn dyfynodau sengl.

Sillafu a Chysylltnodi: Dilynwch ganllawiau *Orgraff yr Iaith Gymraeg* lle'n briodol.

Coma: Mae'n well gan y Wasg hepgor y coma o flaen *a/ac* mewn rhestr fel *gwyn, gwyrdd a choch*.

Hepgor geiriau: Tri dot yn unig, bob tro, p'un a yw'r frawddeg wedi'i chwblhau ai peidio. Gadawer bylchau cyson rhwng y dotiau . . . Wedyn y frawddeg nesaf.

Talfyrru/Cywasgu: Ceir atalnod llawn ar gyfer rhai talfyriadau: *Ffig*., *gol*., cyf., ibid., y Parch., ond nid ar gyfer y mwyafrif o gywasgiadau: Mr, Dr, St (am saint).

Nid oes angen atalnodau ar gyfer y mwyafrif o acronymau a thalfyriadau eraill – UDA, y DU, MA, AS, AC, DS, *ond* Ph.D., M.Sc. Sylwer mai priflythrennau bach yw OC, CC, heb atalnodau, a bod OC yn dod o flaen y dyddiad (OC 410) a CC ar ei ôl (70 CC).

To bach ar 'w' ac 'y': Gofynnwn i chi ddefnyddio'r codau canlynol ar gyfer '_' ac '_':

Am '_' defnyddiwch {
Am '_' defnyddiwch }

Dylid defnyddio'r codau hyn *yn lle'r llythrennau eu hunain*: 'd{r' am 'd_r', 'h}n' am 'h_n' a.y.y.b. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddod o hyd i bob 'w' ac 'y' sydd i fod ag acen grom yn gyflym a didrafferth, a chânt eu newid yn y Wasg. Defnyddiwch y codau hyn hyd yn oed os oes gennych ffontiau Cymraeg ar eich cyfrifiadur, er mwyn osgoi unrhyw broblemau wrth drosglwyddo'r ffeiliau o un system i'r llall.

Rhifau: Ar y cyfan dylid defnyddio ffigurau am rifau dros 10 a geiriau hyd at hynny. Dylai rhif ar ddechrau brawddeg a rhifau bras gael eu mynegi mewn geiriau. Fel rhif gyda'r geiriau 'y cant' y dylid mynegi canran (sef 12 y cant), ond dylid defnyddio % mewn tablau. Dylid cynnwys coma ym mhob rhif sy'n fwy na thri digid, ac eithrio ar gyfer rhifau tudalennau/colofnau/llinellau, chyfeiriadau at ddogfennau ac mewn tablau.

Arian: Ar gyfer y cyfnod cyn arian degol, £5 6s 3d, 5s 0d, 4d, yw'r ffurfiau arferol bellach. Dylai arian degol gael ei fynegi fel: 56p (nid £0.56 heblaw mewn rhestr ariannol), £24.74, £12.05.

Dyddiadau: Dylai'r rhain gael eu mynegi ar y ffurf 1 Ebrill 1987; Sadwrn, 29 Medi 1992; y 1990au (sylwer nad oes collnod); 1939–45; 1996–9; 1914–18 (nid 1914–8, h.y. cadwch ddau ddigid wrth hepgor mewn rhifau rhwng 10 a 19).

Priflythrennau: Defnyddiwch gyn lleied ag y gellir o'r briflythyren yn y testun; ar gyfer teitlau, dim ond mewn cysylltiad ag enw personol y dylid defnyddio priflythyren ar ddechrau'r gair: Arlywydd Bush, Esgob William Morgan ond arlywydd yr Unol Daleithiau, esgob Llanelwy, y pab, y cadeirydd, ysgrifennydd cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur .
At ei gilydd, dylai teitlau sefydliadau a chyrff gael priflythyren, e.e. y Goron, y Blaid Lafur, y Trysorlys, yr Eglwys (o'i gyferbynnu ag eglwys pan gyfeirir at yr adeilad), y Pwyllgor Canolog, y Cabinet, Cyngor Bwrdeistref Sir Casnewydd, ond llythyren fach a geir fel arfer pan fydd y defnydd yn llai pendant, felly llywodraeth y Torïaid, y pwyllgor, y cyngor.
Arddull Gwasg Prifysgol Cymru yw defnyddio llythyren fach ar gyfer de yn 'de Cymru' (ac felly hefyd gogledd, dwyrain, gorllewin Cymru/Lloegr ac ati) gan nad oes yma ranbarth gwleidyddol, gweinyddol neu ddaearyddol penodol. Byddai De America neu De Affrica yn cymryd priflythrennau gan mai at y cyfandir neu'r endid gwleidyddol y cyfeirir.

Cyfeiriadau : system teitlau byr

Dylid rhoi cyfeiriadau ar ffurf ôl-nodion. Dylid rhoi'r manylion cyhoeddi yn iaith y llyfr neu'r erthygl ei hun, e.e. Jeremy Hooker, *Imagining Wales: A View of Modern Welsh Writing in English* (Cardiff, University of Wales Press, 2001); h.y. does dim angen cyfieithu'r manylion i'r Gymraeg. Nid oes angen cynnwys enwau cyhoeddwyr.

Llyfrau: J. B. Smith, *Llywelyn ap Gruffudd: Tywysog Cymru* (Caerdydd, 1986), t. 189.

Erthyglau mewn cyfrol a olygwyd: D. Huws, 'Y pedair llawysgrif ganoloesol', yn S. Davies a P. W. Thomas (goln), *Canhwyll Marchogion: Cyd-destunoli 'Peredur'* (Caerdydd, 2000), tt. 1–9. (Sylwer mai llythrennau bach a ddefnyddir ar gyfer yr holl lythrennau blaen ac eithrio'r gyntaf ac enwau priod yn nheitl yr erthygl. Sylwer y dylid gosod bwlch rhwng llythrennau blaen enwau pobl.)

Erthyglau mewn cylchgrawn: A. O. H. Jarman, 'Y ddadl ynghylch Sieffre o Fynwy', *Llên Cymru*, 2 (1952–3), 1–18. (Sylwer nad oes angen t./tt. ar gyfer cyfeiriadau at gylchgrawn.)

Traethodau heb eu cyhoeddi: John Bevan, 'Astudiaeth seinyddol o Gymraeg llafar Coety Walia a Rhuthun ym Mro Morgannwg' (traethawd MA, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1970), 68.

Llawysgrifau: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cwrtmawr 30B; 6 George IV, chap. 50, section 1, An Act for consolidating and amending the laws relative to Jurors and Juries.

Cyfeiriadau rhyngrwyd: Dylid eu gosod mewn teip italig, e.e. *www.wales.ac.uk/press.* Dylid nodi dyddiad eich ymweliad â'r safwe.

Ailadrodd cyfeiriadau: Wrth gyfeirio dro ar ôl tro at awdurdodau a lleoliadau, gellir sefydlu ffurf fer y tro cyntaf y'u gwelir, e.e. Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC), ac wedyn dylai'r talfyriad gael ei restru ar flaen y deipysgrif. Pan geir cyfeiriad mewn pennod am yr eildro ac wedyn, dylid defnyddio ffurf fer ar y teitl, e.e. Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*; Jarman, 'Y ddadl ynghylch Sieffre'. Osgowch ddefnyddio 'op. cit.' a all beri dryswch. Dylid arfer 'Ibid.' (mewn teip rhufeinig nid italig) mewn troednodyn os yw'r nodyn blaenorol yn cynnwys enw'r gwaith y cyfeirir ato yn unig (h.y., nid nifer o gyfeiriadau gyda'i gilydd).

Hawlfraint

- Bydd contract yr awdur gyda Gwasg Prifysgol Cymru yn dangos pwy biau hawlfraint y gwaith.
- Dylai awduron sicrhau'r caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunyddiau megis darluniau neu ddyfyniadau sylweddol o ryddiaith neu farddoniaeth sydd eisoes wedi eu diogelu gan hawlfraint, ac anfon gohebiaeth ynghylch hyn ymlaen at Wasg Prifysgol Cymru er mwyn i'r gydnabyddiaeth angenrheidiol gael ei chynnwys yn y gyfrol a gyhoeddir.
- Yn achos dyfyniadau o weithiau sydd wedi eu cyhoeddi, gwnewch gais i gyhoeddwr diweddaraf y gwaith o dan sylw i ddechrau, er mwyn iddynt gyfeirio'r ymholwr at y deiliad hawlfraint cywir.
- Os nad yw'r gwaith wedi ei gyhoeddi, gwnewch gais i'r awdur neu'r artist (cofiwch mai'r ffotograffydd biau hawlfraint ffotograff ac mai'r artist neu'r arlunydd biau hawlfraint peintiad/map/darlun).
- Mae hawlfraint gwaith llenyddol neu artistig yn para drwy gydol oes yr awdur ac am 70 mlynedd wedyn.
- Ar gyfer unrhyw ddeunydd y tu allan i'r cyfnod hwn, oni bai ei fod wedi ei ailgyhoeddi, ni fydd angen gofyn am ganiatâd hawlfraint, er ei bod wrth gwrs yn arferol cydnabod y ffynhonnell. Ar gyfer eitem mewn casgliad neu amgueddfa, bydd ffi atgynhyrchu yn daladwy fel arfer i'r casgliad neu'r amgueddfa, hyd yn oed os nad oes hawlfraint ar yr eitem yn dechnegol.
- Os gellir cymryd bod dyfynnu yn gyfystyr â 'fair dealing . . . for the purposes of criticism and review', digon yw cydnabod y ffynhonnell heb ofyn caniatâd, ond gan fod ystyr 'fair dealing' yn amwys, byddai'n ddoeth gofyn am ganiatâd ffurfiol ar gyfer unrhyw ddyfyniad 'sylweddol' o ryddiaith neu farddoniaeth. Gellid diffinio hyn yn achos rhyddiaith fel un dyfyniad o fwy na 400 o eiriau, neu nifer o ddyfyniadau sy'n rhoi cyfanswm o hyd at 800 o eiriau o'r un ffynhonnell; yn achos barddoniaeth, fel un dyfyniad neu gyfres o ddyfyniadau o fwy na 40 llinell, neu ddyfyniad neu ddyfyniadau sy'n cynnwys chwarter neu fwy o gerdd gyflawn.
- Dylai llythyrau awduron yn gofyn am ganiatâd egluro eu bod wrthi yn paratoi gwaith academaidd ac y bydd y nifer a argreffir yn gyfyngedig

(nodwch yr union nifer a gaiff eu hargraffu os yw hynny'n hysbys, neu holwch eich golygydd yn y Wasg) a bod arnynt angen hawliau an-neilltuol yn yr iaith Gymraeg ledled y byd i atgynhyrchu'r deunydd hawlfraint o dan sylw. Os yw'r ffioedd atgynhyrchu y gofynnir amdanynt yn sylweddol, yna holwch eich golygydd yn y Wasg.

Proflenni

Proflenni cyntaf yn unig a welir gan gyfranwyr cylchgronau, gan y bydd yr ail broflenni fel rheol yn cael eu darllen gan olygydd(ion) y cylchgrawn. Gofynnir fel arfer i gyfranwyr ddarllen eu proflenni o fewn wythnos ar ôl eu cael.

Dychwelyd deunyddiau

Ni all Gwasg Prifysgol Cymru warantu y caiff y teipysgrifau a'r disgiau gwreiddiol eu dychwelyd i'r awduron ar ôl eu cyhoeddi. Os dymunwch iddynt gael eu dychwelyd, byddwch cystal ag egluro hynny ar ddechrau'r broses. Caiff ffotograffau a deunyddiau darluniadol eraill nad ydynt ar ddisg eu dychwelyd i'r awduron cyn gynted ag y gellir ar ôl i'r broses argraffu ddirwyn i ben.